



# YSGOL GYMRAEG HENLLAN

*Cymry Balch! Meithrin yfory Heddiw!*

# Llawlyfr Ysgol School Handbook





# Ysgol Gymraeg Henllan

Stryd Dinbych  
Henllan  
Sir Ddinbych  
LL16 5AW

Denbigh Street  
Henllan  
Denbighshire  
LL16 5AW



**01745 812959**



**[ysgol.henllan@denbighshire.gov.uk](mailto:ysgol.henllan@denbighshire.gov.uk)**



**[www.ysgolhenllan.weebly.com](http://www.ysgolhenllan.weebly.com)**



**Ysgol Gymraeg Henllan**



**@ysgolhenllan**

*“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”*



# Croeso / Welcome

Mae'n bleser gennyf gyflwyno 'Llawlyfr Ysgol Gymraeg Henllan' i chi. Rydym yn ymfalchïo yn ein ysgol hapus a chartrefol lle caiff pob unigolyn ei barchu a'i werthfawrogi. O fewn yr amgylchedd braf yma rydym yn sicrhau addysg o'r radd uchaf gan gynnig amrediad o gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ein dysgwyr.

Cymraeg yw iaith feunyddiol yr ysgol; gyda'r disgyblion yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r dosbarth Meithrin ymlaen. Bydd Saesneg, fel pwnc, yn cael ei gyflwyno i'r disgyblion ym Mlwyddyn 3 pan fydd y disgyblion yn 7 oed. Yr ydym yn darparu cyfleoedd cyfoethog er mwyn datblygu ein disgyblion i fod yn ddinasyddion dwy ieithog hyderus, gan wneud hynny mewn awyrgylch Gristnogol.

Edrychwn ymlaen i gyd-weithio'n hapus dros y blynyddoedd i ddod.

It gives me great pleasure to present 'Ysgol Gymraeg Henllan's Prospectus'. We are proud of our happy and homely school whereby every individual is respected and appreciated. Within our school we ensure education of a high standard and offer a wide range of opportunities for our pupils to develop their information and skills.

Welsh is the daily language of the school; with the children receiving their education through the Welsh medium from the Nursery class up to Year 6. English is formally taught in Year 3 when pupils are 7 years old. We ensure an enriched environment whereby our pupils become fluent bilingual citizens. I'm sure your child will be very happy at our school and will thrive in our enriched, educational, Christian focused environment.

As staff we look forward to working together happily for many years to come.

*Mrs Lynne Jones*

**Pennaeth / Headteacher**

*"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"*



# Staff yr Ysgol / School Staff

**Pennaeth / Headteacher :**

**Mrs Lynne Jones**

**Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:  
/ Nursery, Reception, Year 1 & 2:**

**Mr Albert Leverett**

**Blwyddyn 3 a 4 / Year 3 and 4:**

**Miss Anwen Hughes**

**Blwyddyn 5 a 6 / Year 5 and 6:**

**Miss Mary Glover**

## **Cymorthyddion Dysgu / Teaching Assistants:**

**Miss Elen Lewis Roberts**

**Miss Lowri Hughes**

**Mrs Carole Owens**

**Mr Ianto Williams**

**Ms Ann Evans**

**Miss Bethan Roberts**

**Mrs Charlotte Jones**

**Ysgrifenyddes/ Secretary:**

**Mrs Sara Leverett**

**Gofalwr a Glanhawraig  
/Caretaker and Cleaner:**

**Mrs Debbie Moore**

**Cogyddes/ Cook:**

**Mrs Laura Harvey**

**Clwb Hapus Henllan :**

**Ms Ann Evans**

## **Cylch Meithrin Henllan**

**Arweinydd/ Leader:**

**Miss Elen Lewis Roberts**

**Cymhorthydd/ Assistant:**

**Ms Angela Bryan**

*“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”*



# Amserlen Ysgol / School Timetable

## Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase

**Sesiwn/ Session 1: 8.55am- 10.45am**

**Sesiwn/ Session 2: 11.00am - 12pm**

**Sesiwn/Session 3: 13.00pm - 14.00pm**

**Sesiwn/ Session 4: 14.15pm - 15.15pm**

## Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2

**Sesiwn/ Session 1: 8.55am- 10.45am**

**Sesiwn/ Session 2: 11.00am - 12.10pm**

**Sesiwn/Session 3: 13.00pm - 14.05pm**

**Sesiwn/ Session 4: 14.05pm - 15.15pm**

**Amser Chwarae Bore / Morning Playtime—10:45—11:00**

**Amser Chwarae Prynawn a 'Milltir y Dydd'**

*"Cymry Balch! Meithrin yfory Heddiw"*



# Llywodraethwyr / Governors

Mae gennym Fwrdd Llywodraethu gweithgar ac ymrwymedig. Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol yn ôl gyfraith, am reolaeth cyffredinol yr ysgol. Diben y Corff Llywodraethol yw cynghori, darparu gwybodaeth a chefnogi'r Pennaeth a staff yr ysgol. Bydd y Corff Llawn yn cyfarfod bob hanner tymor i drafod agweddau staffio, cyllid, addysg arbennig, curicwlwm ac adeiladau.

We have an active and committed Governing Board. Members of the Governing Body are responsible by law for the overall management of the school. The purpose of the Governing Body is to advise, provide information and support the Headteacher and school staff. The Full Body meets every half term to discuss staffing, finance, special education, curriculum and accommodation aspects.

**Cadeirydd/ Chair:**

Mr Alan Roberts

**Is-Gadeirydd/ Vice Chair:**

Mrs Fiona Dupays

**Clerc/ Clerk:**

Mrs Sara Leverett

**Pennaeth/ Head:**

Mrs Lynne Jones

**Cynrychiolydd Athrawon/  
Teacher Representative:**

Mr Albert Leverett

**Cynrychiolydd Staff  
/Staff Representative:**

Miss Elen Lewis Roberts

**Cynrychiolydd Rhieni/  
Parent Representative:**

Mr Dewi Jones

**Cynrychiolydd Rhieni/  
Parent Representative:**

Mrs Louise Hughes

**Cynrychiolydd Rhieni/  
Parent Representative:**

Mrs Shewla Cadman

**Cynrychiolydd Cymuned/  
Community Representative:**

Mr Gwyn Roberts

**Cynrychiolydd Cymuned/  
Community Representative:**

Parchedig Martin Pritchard

**Cynrychiolydd Awdurdod Lleol/  
Local Authority Representative:**

Dr Nia Parry

“Cymry Balch! Meithrin yfory Heddiw”



# Cylch Meithrin Henllan

Cylch Meithrin



Henllan

Cynhelir y Cylch Meithrin a Meithrin Mwy yn neuadd yr ysgol. Mae'r Cylch yn rhan o'r Mudiad Meithrin Cenedlaethol ac yn cael ei redeg gan Anti Elen ac Anti Ange.

The 'Cylch' (Pre-Nursery Group) meets in the school hall. It is regulated by the national body 'Mudiad Meithrin' and is run by Auntie Elen and Auntie Ange.

**Agor i blant 2-4 oed / Open for children aged 2-4 years**

**Oriau Agor / Opening Times: 11.30am - 3.15pm**

\* Posiblwydd o 8.45am - 3.15 os oes ddigon o alw / Possibility of 8.45am -3.15pm if the need is great enough.

**Mae'r Cylch yn cynnig / The Cylch offers:**

- Cynnig Gofal 30 Awr / 30hour Childcare
- Gofal Plant Di-Dreth / Tax-Free Childcare
- Addysg Gynnar / Early Education

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r cylch  
/ For more information, please contact the Cylch.

**[cmhenllan@gmail.com](mailto:cmhenllan@gmail.com)**

**01745 812959**



*"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"*



# Gofal Cofleidiol / Wraparound Care

## Clwb Brecwast / Breakfast Club

Cynhelir Clwb Brecwast yn neuadd yr ysgol o 8yb - 8.45yb. Mae cost bach am y chwarter awr cyntaf ac am ddim o 8.15yb - 8.45yb. Mae cyfle i blant cael brecwast.

The Breakfast Club is held in the school hall from 8am - 8.45am. A small cost is charged for the first 15 minutes and then free from 8.15am- 8.45am. Breakfast is available.

## Clwb Hapus Henllan - After School Provision

Cynhelir y Clwb Gofal (taliadwy) Henllan Hapus yn neuadd yr ysgol . Mae'r Clwb yn rhan o Ysgol Gymraeg Henllan.

Darperir gofal 5 prynhawn yr wythnos ac yn cael ei redeg gan Anti Ann.

The Henllan Hapus—After School Club (chargeable) meets in the school hall. It is regulated by Ysgol Gymraeg Henllan and is run by Auntie Ann. Care is provided 5 afternoons a week.

### Oriau Agor / Opening times - 3.15pm - 5.30pm

3.15pm - 4.15pm - £4      3.15pm - 5pm - £8 (cynnwys snac / includes snack)

3.15pm - 5.30pm - £11 (cynnwys snac / includes snack)

3.15pm - 5.30pm - £13 (cynnwys te/ includes tea)



“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”





# Gwisg Ysgol / School Uniform

Mae gennym wisg ysgol ffurfiol a disgwyliwn i bob disgybl ei gwisgo.  
Mae'n bwysig bod yr holl ddillad yn cael eu marcio'n glir ac yn barhaol gydag enw'r plentyn.  
Gellir archebu'r wisg yn Jean Emporium, Rhyl/School Shop Direct yn Ninbych.

The school has a formal uniform which pupils are expected to wear.  
It is important that all clothing is clearly and permanently marked with the child's name. The uniform is available to buy in 'Jean Emporium, Rhyl/School Shop Direct, Denbigh.

## Gwisg Ysgol - School Uniform

Crys chwys yr ysgol / School sweatshirt

Crys Polo yr ysgol / School Polo Shirt

Trowsus neu sgert ddu neu llwyd

Black or grey trousers / skirt

## Yr Haf / The Summer

Gall y merched wisgo ffrog haf gwyrdd a gwyn a gall rhywun wisgo trowsus byr du neu lwyd.


Girls may wear a green and white summer dress and all pupils may wear black or grey shorts.



## Addysg Gorfforol / Physical Education Kit

Crys-t gwyn neu wyrdd / Green or white t-shirt

Trowsus byr glas tywyll neu ddu / Navy blue or black shorts.



"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"



# Y Cwricwlwm / The Curriculum

## Y Pedwar Diben / The Four Purposes

dysgwyr uchelgeisiol,  
galluog sy'n barod i  
ddysgu gydol eu  
bywydau

gyfranwyr mentrus,  
creadigol sy'n barod i  
chwarae rhan lawn  
mewn bywyd a gwaith

dinasyddion  
egwyddorol,  
gwybodus yng  
Nghymru a'r byd

unigolion iach, hyderus  
sy'n barod i fyw bywyd  
cyflawn fel aelodau  
gwerthfawr o gymdeithas.

ambitious, capable  
learners, ready to  
learn throughout their  
lives

enterprising, creative  
contributors, ready  
to play a full part in  
life and work

ethical, informed  
citizens of Wales  
and the world

healthy, confident  
individuals, ready to lead  
fulfilling lives as valued  
members of society

Yr ydym yn darparu cwricwlwm eang sydd yn cynnwys ac yn datblygu pob disgybl i'w llawn botensial yma yn Ysgol Gymraeg Henllan. Dysgir y Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol, efo'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Digidol yn ganolog i bawb ac yn cael ei ddysgu'n drawsgric- wlaidd. Addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.

We provide a broad curriculum that is inclusive to all and that develops each pupil to his / her full potential. We teach the Curriculum for Wales and the Literacy and Numeracy Framework along with the Digital Competency Framework is central to everyone learning cross-curricular. All lessons are taught through the medium of Welsh.

## 6 Maes Dysgu a Phrofiad / 6 Areas of Learning and Experiences

leithoedd,  
Llythrennedd a  
Chyfathrebu /  
Languages, Literacy  
and Communication

Mathemateg  
a Rhifedd/  
Mathematics  
and Numeracy

Gwyddoniaeth  
a Thechnoleg/  
Science and  
Technology

Iechyd a  
Lles/  
Health and  
Well-being

Celfyddydau  
Mynegiannol/  
Expressive  
Arts

Dyniaethau/  
Humanities

## Themau Trawsgwricwlaidd / Cross-Cutting Themes

Addysg Cydberthynas a Rhywoldeb / Relationships and Sexuality Education

Hawliau Dynol / Rights, Respect and Equality

Gyrfaoedd / Careers

Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol / Local, National and International Contexts

“Cymry Balch! Meithrin yfory Heddiw”



# Y Cwricwlwm / The Curriculum

## Defnyddio'r Gymraeg / Use of the Welsh Language

Gan ein bod yn ysgol Gymraeg penodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y

Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 er mwyn i'r plant gael Sylfaen gadarn i'r iaith. Cyflwyni'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed.

As a designated Welsh school, Welsh is the official language of the school and is used in all aspects of the curriculum. Welsh is the main medium of the life and work of the Foundation Phase and Key Stage 2 in order for the children to have a firm foundation for the language. We introduce English at Key Stage 2 in order to ensure that they have the opportunity to develop fully bilingually by the time they leave school at 11 years of age.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs

Un o amcanion yr ysgol yw gosod y safonau uchaf posibl o addysg effeithiol o fewn cwricwlwm cytbwys ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae hyn yn berthnasol i'r disgyblion mwyaf galluog a'r disgyblion gydag anhawsterau dysgu.

One of the school's aims is to set the highest possible standards of effective education within a balanced curriculum for pupils of all abilities. This applies to the most able pupils and pupils with learning difficulties.

## Polisi Cyfle Cyfartal / Equal Opportunities Policy

Mae polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol yn nodi ymrwymiad Ysgol Gymraeg Henllan i drin pob unigolyn yn gyfartal beth bynnag bo'i gallu, cefndir, hil neu ryw.

The school's Equal Opportunities policy notes Ysgol Gymraeg Henllan's commitment to treating each individual equally regardless of ability, background, race or gender.

## Asesu / Assessment

Bydd cynnydd y plant yn cael ei asesu'n barhaol gan yr athrawon. Bydd yr asesiadau hyn yn gymorth i athrawon wrth gynllunio rhaglenni i'r plant yn ogystal â bod yn ddefnyddiol wrth adrodd yn ôl i rhieni.

The children's progress will be continually assessed by the teachers. These assessments will help teachers in planning lessons for the children as well as being useful when reporting back to parents.

## Addysg Grefyddol a Chydaddoli / Religious Education and Collective Worship

Mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Dylai rhieni sydd am eithrio eu plant o wersi Addysg Grefyddol neu wasanaethau crefyddol/gweddiiâu dyddiol adael i'r ysgol wybod drwy llythyr.

Religious Education is part of the curriculum for all pupils. Parents wishing to withdraw their children from Religious Education or religious services / daily prayers should let the school know by letter.

“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”



# Y Cwricwlwm / The Curriculum

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb / Relationships and Sexuality Education

Mae Llywodraethwyr yr ysgol hon wedi penderfynu bod addysg rhyw yn cael ei ddysgu fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Gwneir hynny fel rhan o bolisi Addysg Personol a Chymdeithasol cynhwysfawr sy'n delio â llawer o faterion yn ymwneud â datblygiad yr unigolyn. Defnyddir dogfennau'r Awdurdod ac adnoddau Hwb yn ganllaw i'r dysgu ac ymgorfforir yr elfennau perthnasol yn aml yng ngweithgareddau arferol y dosbarth. Bydd aeddfedrudd ac anghenion pob disgybl yn cael eu hystyried wrth ymdrin ag addysg rhyw. Bydd gwersi penodol yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 fel rhan o thema'r corff. Mae hyn yn gorfodol.

The Governors of this school have decided that sex education is taught as part of the school curriculum. This is done as part of a comprehensive Personal and Social Education policy which deals with many issues relating to the individual's development. The Authority's and Hwb's resources are used as a guide to the learning and the relevant elements are often incorporated into normal classroom activities. The maturity and needs of each pupil will be taken into account when dealing with sex education. Specific lessons will be presented to Year 5 and 6 pupils as part of the Body's theme. This is mandatory.

## Gwersi Offerynnol / Instrumental Lessons

Bydd cyfle i blant Flwyddyn 2-6 gael gwersi offerynnol amrywiol gan athrawon peripatetig a chodir tâl tymhorol.

There will be an opportunity for Year 2-6 pupils to have instrumental lessons from peripatetic teachers and a termly charge will be made.

## Gwaith Cartref / Homework

Fe anogir y plant i wneud gwaith carterf. Pwysleisiwn mai partneriaeth sydd yn bwysig i addysg eich plentyn felly ceisiwch greu amser rheolaidd i drafod gwaith gyda eich plentyn. Mae Her Ddarllen Henllan yn brosiect trwy'r flwyddyn sydd yn gwobrwyo plant efo medalau, tlysau a talebion.

Children are encouraged to do homework. We emphasise that it is a partnership that is important to your child's education so try to create a regular time to discuss work with your child.

Henllan Reading Challenge provides the pupils with an all round year reading project with medals, trophies and vouchers available.

## Chwaraeon / Sports

Mae Addysg Gorfforol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn datblygu sgiliau mewn gemau, gymnasteg,awns, athletau a nofio. Mae datblygu ymwybyddiaeth o iechyd a ffitrwydd yn thema ganolog. Rydyn ni'n amcanu i ddarparu cyfleon addas i'n disgyblion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, rhai cystadleuol a rhai sydd ddim yn gystadleuol. Mae nofio'n cael ei ddysgu i ddisgyblion Blwyddyn 2, 3, 4, 5 a 6.

Braint oedd cael Ysgol Henllan yn rhan o raglan Ffit Cymru ar S4C yn 2019 a mae'r etifeddiaeth yma yn parhau hyd heddiw drwy ein hymgais i redeg 'Milltir y Dydd'.

Physical Education plays a big part in school life. Pupils develop skills in games, gymnastics, dance, athletics and swimming. The development of awareness of health and fitness is a central theme. We aim to provide our pupils with appropriate opportunities to take part in a variety of sporting activities both competitive and non-competitive. Swimming is taught to pupils in Year 2, 3, 4, 5 and 6.

It was a privilege to have Ysgol Gymraeg Henllan as part of the Ffit Cymru program on S4C in 2019 and this legacy continues to this day through our quest to run the 'Daily Mile'.

"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"



## Yr Urdd / The Urdd

Byddwn yn cystadlu yn flynyddol yn yr Eisteddfodau ar amrediad o gystadleuthau e.e. Adrodd, canu, celf a chrefft. Cymerir rhan mewn cystadleuthau chwaraeon megis pêl-droed, rygbi, gala nofio, pêl rwyd, ac athletau. Bydd rhaid i blant ymaelodi i gymeryd rhan ac mae côst i hyn.

We will be competing annually at the Eisteddfod on a range of competitions e.g. singing, arts and crafts. They take part in sports competitions such as football, rugby, swimming gala, netball, and athletics. Children will have to join and there is an annual fee for this.



## Addasiadau i gynnwys anableddau / Provision for disabilities

Mae'r ysgol wedi'w haddasu fel bod mynediad addas ar gael i bob disgybl / ymwelydd. Ni cheir unrhyw blentyn ei drin yn llai ffafriol yn sgil anabledd.

The school has been adapted to ensure all pupils and visitors are enabled when at the school. No pupil is disadvantaged on the basis of disability.

## Presenoldeb / Attendance

Rydyn ni'n awyddus iawn i annog presenoldeb da ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda rhieni i geisio sicrhau hyn. Os ydych chi'n bwriadu cadw'ch plentyn i ffwrdd o'r ysgol oherwydd nad yw ef/hi yn teimlo'n iawn, fe fydden ni'n gofyn i chi un ai ffonio'r ysgol neu roi gwybod i ni'n ysgrifenedig. Rydyn ni'n gweithredu system cyswllt diwrnod cyntaf lle cysylltir â rhieni os nad ydyn ni wedi derbyn gwybodaeth ynagl n ag absenoldeb.

Mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu'r Awdurdod Lleol os yw disgybl yn colli'r ysgol yn rheolaidd.

Dylid osgoi gwyliau teuluol yn ystod y tymor. Gofynnir i rieni wneud cais am y caniatâd priodol oddi wrth yr ysgol.

We are very keen to encourage good attendance and we work closely with parents to this end. If you intend to keep your child away from school because he/she is not well, we would ask that you to either telephone the school or notify us in writing. We operate a first day contact system in which parents are contacted if we have not received information regarding an absence.

The school is obliged to inform the Local Authority if a pupil is failing to attend school regularly.

Family holidays during term time should be avoided. Parents are asked to request the appropriate approval form from the school.

“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”



## Byrbrydau Iach / Healthy Snacks Cinio Ysgol / School Dinners

Darperir ginio ysgol gwerth chweil yma, gyda niferoedd uchel yn cael cinio yn ddyddiol.

Gofynnwn yn garedig i'r arian cinio wythnosol gael ei dalu trwy system Parent Pay. Mae modd gwneud cais am ginio di-dâl drwy gwblhau ffurflen perthnasol sydd i'w gael gan ysgrifenyddes yr ysgol.

Ceir disgyblion y Meithrin/Derbyn a Blwyddyn 1 lefrith pob dydd a ceir pob disgybl yn yr ysgol snac pob bore am £1 yr wythnos.

Nutritious and delicious School dinners are provided at the school, with high numbers of pupils receiving dinners daily.

We ask kindly for the weekly dinner money to be paid through Parent Pay. An application form for free school meals can be obtained from the office.

Nursery, Reception and Year 1 pupils have milk each morning and all pupils receive a snack every morning for £1 per week.

## Iechyd a Diogelwch / Health and Safety

Mae gan adeilad yr ysgol system mynediad diogel. Mae gofyn i bob ymwelydd i'r ysgol arwyddo i mewn ac allan pan maen nhw'n cyrraedd neu adael yr adeilad er mwyn hwyluso galw cofrestr fanwl gywir os digwydd tân. Caiff staff eu hannog i "herio" unrhyw berson anghyfarwydd. Mae ffiniau'r ysgol a'r meysydd chwarae wedi eu hamgylchynu â ffens a gatiau.

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol, ni chaniateir ysmegu oddi fewn i ffiniau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a Diogelwch ac mae gan y Corff Llywodraethol is-bwyllgor iechyd a diogelwch sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles y disgyblion a'r staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

The school building has a secure entry system. All visitors to school are requested to sign in and out when they arrive or leave the building to enable an accurate roll call in case of fire. All staff are encouraged to "challenge" any unfamiliar persons. The school perimeter and playgrounds are fully fenced and gated.

In accordance with Local Authority guidelines, smoking is not permitted within the school boundaries.

The school has a Health and Safety policy and the Governing Body has a Health and Safety sub-committee who meet regularly. Procedures relating to the health, safety and welfare of pupils and staff are regularly reviewed.

*"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"*



## Derbyniadau / Admissions

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion Meithrin yn rhan amser (bore) i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Yn yr un modd, dilynrir Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosglwyddo disgyblion o ysgol i ysgol. Estynnwn groeso cynnes i chi ymweld a'r ysgol unrhyw amser i edrych o gumpas a trafod ymhellach.

pils are admitted to the school in accordance with the Authority's Access Policy. In accordance with that policy, Nursery pupils are admitted part time (morning) to the school in the September following their third birthday. Reception age pupils are admitted to the school full time in the September following their 4th birthday. Similarly, the Authority's Admissions Policy is followed when pupils transfer from school to school. We warmly welcome you to visit the school any time to look around and discuss things further.

## Ymddygiad / Behaviour

Mae'n bwysig fod disgyblion yn dysgu ymddygiad priodol a'u bod yn ymwybodol o'r effaith mae eu hymddygiad yn ei gael ar eraill. Mae disgyblaeth felly'n cael ei seilio ar berthnasau cadarnhaol ac ar disgwyliad y bydd disgyblion yn dilyn rheolau'r ysgol. Gwella hunanddelwedd a hyder disgyblion yw'r egwyddor arweiniol ar gyfer pob aelod o'r staff yn ein hymdrechion i hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r model Disgyblion Disglair sy'n atgyfnerthu'n strategaeth a'n polisi rheoli ymddygiad. Ymgynghorir â'r rhieni'n gynnar os oes pryderon ynghl n ag ymddygiad disgybl ac rydyn ni'n annog rhieni i gysylltu â'r ysgol os ydyn nhw'n poeni am ymddygiad eu plentyn yn y cartref.

Mae bwlio'n fater gaiff sylw staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol ac ni chaiff ei oddef. Os ydych chi'n teimlo fod gan eich plentyn unrhyw broblem yn ymwneud ag ymddygiad fe'ch anogir i gysylltu â'r ysgol gynted ag y bo modd fel y gellir cymryd y camau priodol.

It is important that pupils learn appropriate behaviour and that they are aware of the effect that their behaviour has on others. Discipline is, therefore, based on positive relationships and on an expectation that pupils will follow the schools' basic rules. Improving pupils' self-image and confidence is the guiding principle for all members of staff in our efforts to promote good behaviour. Parents are consulted at an early stage if there are concerns regarding a pupil's behaviour and we encourage parents to contact the school should they be worried about their child's behaviour at home.

Bullying is an issue which is addressed by the staff, governors and pupils at the school and will not be tolerated. If you feel that your child has an issue relating to behaviour you are urged to contact school as soon as possible so that appropriate action can be taken.

“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”



## Cyngor Ysgol / School Council

Mae gennym Gyngor Ysgol gweithgar iawn sydd yn cyfrannu'n helaeth i benderfyniadau'r ysgol. Nhw sydd yn cynrychioli llais y disgyblion yma yn Ysgol Gymraeg Henllan. Mae ganddom hefyd Lysgenhadon y menter Siarter Iaith ar draws yr ysgol. Bydd aelodau'n cael eu hethol gan system pleidleisio gan y plant yn flynyddol.

We have a very active School Council that contributes extensively to school decisions and activities. They are the ones elected to share the pupils voice here at Ysgol Henllan. We also have pupils leading our Welsh Charter initiatives across the school.

## Eco Ysgolion / Eco Schools

Yr ydym yn ysgol werdd sydd wedi ennill y Wobr Platinwm. Mae ein disgyblion yn ymwybodol o sut i fod yn ofalgar o'r amgylchedd a'i gwarchod at flynyddoedd i ddod.

We are an ecologically friendly school and we have won the Platinum award. Our pupils are aware of their environment and how to protect her for the future.



*"Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw"*





*“Cymry Balch! Meithrin Yfory Heddiw”*